# Llais Llanilar

Tymor y Gwanwyn 2025 Spring Term

Gwneud ein gorau sydd orau bob tro

**Diolch yn fawr i bob dosbarth am fod yn ohebwyr Llais Llanilar.**

***Thank you to the classes for being reporters for Llais Llanilar.***

Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill grant Tesco o £1500. Diolch yn fawr i bawb wnaeth bleidleisio drostom. Gallwn barhau i brynu adnoddau addas i'r ystafell synhwyraidd sydd yn nosbarth Criw Cyw.

**Diolch yn fawr i HD Construction (Wales) a Derek Ford am wneud y gwaith arbennig ar yr ystafell synhwyraidd.**

The school has been successful in winning a Tesco grant of £1500. A big thank you to everyone who voted for us. We can continue to buy suitable resources for the sensory room.

**Many thanks to HD Construction (Wales) and Derek Ford for doing the special work on the sensory room.**

Cofiwch ddilyn **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** ar ein tudalen **Facebook.** Hefyd, mae **gwefan** yr ysgol (llanilar.ceredigion.sch.uk) yn cael ei diweddaru yn gyson gyda'r newyddion mwyaf cyfredol.

*Please remember to follow our Facebook page* **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar.** Also, our school website (llanilar.ceredigion.sch.uk) is regularly updated.

# Ein Blaenoriaethau Ysgol— *Our School Priorities*

Dyma ein blaenoriaeth ysgol ni eleni a rhai enghreifftiau o 'r gweithgareddau i gyrraedd rhain.

Here are our school priorities this year with some examples of how we are addressing these.

**Blaenoriaeth 1 / Priority 1:**

Dyfnhau dealltwriaeth cytûn o gynnydd a dilyniant yn y dysgu drwy'r defnydd o linynnau er mwyn creu cwricwlwm sy'n cael ei harwain gan bwrpas.

To deepen and have an agreed understanding of progress and progression in learning through the use of strands in order to create a curriculum that is guided by purpose

Camau cynnydd yn cael eu cynlluno i bob Maes Dysgu

*Progression steps are planned for every Area of Leaning.*

Cynllunir cwricwlwm sydd yn bwrpasol ac yn ddiddorol.

*Purposeful and interesting curriculum is introduced and planned.*

**Blaenoriaeth 2 / Priority 2:** Cydweithio effeithiol fel Criw Cyw dysgu sylfaen er mwyn cynllunio darpariaeth sy'n herio pob disgybl hyd eithaf ei gallu.

Collaborate effectively as Criw Cyw in order to plan provision that challenges each pupil to the best of their ability.

Ardaloedd dysgu ysgogol wedi eu creu.

*Stimulating areas of learning have been created.*

Mwy o ddefnydd o Seesaw i gofnodi'r dysgu.

*More use of Seesaw to capture the learning.*

**Blaenoriaeth 3 / Priority3:** Meithrin ethos ac amgylchedd o ddarllen sy'n datblygu mwynhad ac hyder, gan alluogi disgyblion i ddod yn ddarllenwyr annibynnol.

Foster an ethos and environment of reading that develops enjoyment and confidence, enabling pupils to become independent readers.

Creuwyd Llecyn Llyfrau.

A stimulating library has been created

Awdur y mis yn cael ei gyflwyno

Author of the month is introduced

Penodwyd Llyfrgellwyr

Librarians have been appointed.

Mwy o gyfleoedd i fwynhau storiau

More opportunities to enjoy stories

# Dosbarth Glyndŵr

Rydyn ni wedi bod yn ffodus i weithio ar brosiect cyffrous gyda Siarter Iaith, sef i gyfansoddi a recordio cân gyda Mei Gwynedd. Cafwyd dathliad arbennig o'r prosiect ar Ddydd Miwsig Cymru ym Mhafiliwn Bont wrth i ni fynychu gig gyda nifer o ddisgyblion eraill ar draws Ceredigion.

*We have been fortunate to work on an exciting project with Siarter Iaith by composing and recording a song with Mei Gwynedd. We had a fantastic celebration to this project by attending a gig on Welsh Music day in Bont Pavillion.*













Mae Dosbarth Glyndŵr wedi mwynhau gwersi nofio yn ystod y tymor- pob un wedi gwneud cynnydd arbennig.

*Glyndŵr class have been enjoying swimming lessons during the term- every pupil has made fantastic progress.*

# Llwyddiannau

Da iawn ti am fod yn ddysgwr creadigol wrth gymryd rhan ym Mhantomeim blynyddol y cwmni Wardens yng Nghanolfan y Celfyddydau. Fe wnes di ddangos dyfalbarhad a mwynhau pob eiliad o'r sioe– da iawn ti!

Well done for being a creative learner for taking part in the Wardens annual pantomime at the Arts Centre. You showed great determination and enjoyed every minute of the show– well done!







Da iawn chi am fod yn ddysgwyr iach wrth i chi gynrychioli'r ysgol yn Nhîm Rygbi Sir Ceredigion. Mae'r ddau yn teithio ar hyd a lled Cymru i chwarae gemau ar nos Wener. Mae'r ddau wedi sgorio sawl cais yn ystod yr wythnosau diwethaf– da iawn chi fechgyn!

*Well done for being healthy learners whilst representing the school with the Ceredigion rugby team. Both are travelling around Wales on Friday nights to play games. Both have also been very busy scoring tries these last few weeks– well done boys!*

*Da iawn i'r criw hyn o flwyddyn 6 am fod yn  ddysgwyr gwybodus a chymryd rhan yn y Cwis Dim Clem gan gael marciau llawn mewn sawl rownd– arbennig!*

*Well done to these knowledgeable pupils from Year 6 for taking part in a quiz recently and receiving full mark in many rounds– fantastic!*



# Gala nofio Cylch Aberystwyth

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn Ngala nofio Cylch Aberystwyth ym mis Ionawr. Cafwyd bore brwd o gystadlu a phawb yn cefnogi o'r ochr- arbennig!

Congratulations to all who competed at the Aberystwyth area schools gala in January. We had a fantastic morning of competing with everyone cheering from the poolside!





1af Ras gyfnewid amrywiol Blwyddyn 6



1af Ras gyfnewid rhydd Blwyddyn 5

Canlyniadau:

**Rhydd:**

Beca 2il Merched Blwyddyn 5

Kitty 1af Merched Bl 3 a 4

**Cefn:**

Eben 3ydd Bechgyn Blwyddyn 6

**Broga:**

Gruffudd 1af Bechgyn Blwyddyn 3 a 4

Osian 1af Bechgyn Blwyddyn 6

**50m:**

Osian 1af Bechgyn Blwyddyn 6

Kitty 3ydd Merched Blwyddyn 5

**Ras gyfnewid:**

Merched Blwyddyn 5:

1af Rhydd,

2ail yn yr amrywiol.

# Dosbarth Criw Cyw

Buodd Criw Cyw yn brysur yn casglu sbwriel o amgylch yr ysgol a'r llwybr seiclo yn ystod yr hanner tymor er mwyn ceisio datrys 'Trafferthion Llanilar'. Hoffwn rannu ein neges bwysig y dylem rhoi ein sbwriel yn y bin er mwyn cadw Llanilar yn daclus!

Criw Cyw have been busy collecting rubbish around the school and the cycle path during this half term in order to try and solve 'Llanilar's  Troubles'. We would like to share our important message that we should put our rubbish in the bin in order to keep Llanilar tidy!



Wrth ddysgu am effaith dynol ar y byd a deunyddiau buom yn darllen stori 'Sedna a'i Neges o'r Arctig', a dysgu am sut mae sbwriel a phlastig yn effeithio ar anifeiliaid yr Arctig. Mae'r plant wedi mwynhau didoli gwahanol o ddeunyddiau ailgylchu a chreu anifeiliaid allan o'r sbwriel.

While learning about human impact on the world and materials we read the story 'Sedna and her Message from the Arctic', and learned about how rubbish and plastic affect Arctic animals. The children have enjoyed sorting recycled materials and creating animals out of the rubbish.



# Dosbarth Gwenllian




Un o uchafbwyntiau'r hanner tymor yma oedd astudio Cantre'r Gwaelod, y deyrnas suddedig chwedlonol. Cafodd y dosbarth gyfle unigryw i ymweld â thraeth Borth. Yno, cwrddon ni â Hywel Griffiths, darlithydd o Brifysgol Aberystwyth a bardd, a rannodd ei wybodaeth am yr ardal. Rhoddodd sgwrs ddiddorol am y goedwig a gwaith pwysig amddiffynfeydd yr arfordir. Roedd y daith addysgiadol hon yn ysbrydoledig ac yn gofiadwy.

Ffocws allweddol arall y tymor hwn oedd her a osodwyd gan Flwyddyn 6 i helpu i fynd i'r afael â mater baw cŵn yn Llanilar. Dysgodd y plant am y peryglon amgylcheddol a achosir gan faw ci. Fel grŵp, maent wedi gweithio ar greu rap i godi ymwybyddiaeth ac annog ymddygiad cyfrifol yn y gymuned. Ein cam nesaf fydd cynhyrchu fideo i arddangos eu neges. Cadwch lygad allan am eu gwaith gwych dros yr wythnosau nesaf!

Cafodd Dosbarth Gwenllian brofiad anhygoel yn ystod eu hamser yn Llangrannog. Yma, dysgodd y plant sgiliau bywyd gwerthfawr, oresgyn heriau newydd, a chael cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Roedd y plant yn anhygoel ac roedd yn bleser llwyr fod gyda nhw!

One of the highlights of the term was the study of *Cantre'r Gwaelod*, the legendary sunken kingdom. To bring this topic to life, the class had the unique opportunity to visit Borth Beach. There, they met with Hywel Griffiths, a lecturer from Aberystwyth University and a bard, who shared his knowledge of the area. He gave an insightful talk about the sunken and the important work of sea defences in protecting the coastline. This educational trip was both inspiring and memorable.

Another key focus this term was a challenge posed by Year 6 to help tackle the issue of dog waste in Llanilar. The children learned about the environmental dangers posed by dog poo and, as a group, worked on creating a rap to raise awareness and encourage responsible behaviour in the community. Their creativity and enthusiasm shone through, and the next step will be producing a music video to showcase their message. Keep an eye out for their fantastic work in the coming weeks!




Dosbarth Gwenllian had an incredible experience during their time at Llangrannog. Here, the children learned valuable life skills, took on new challenges, and were given opportunities to develop independence. They demonstrated an impressive amount of resilience and teamwork, making the trip a highlight of their term.

# Lleisiau llar

Lleisiau llar yw pwyllgorau o blant ar draws yr ysgol. Mae gennym ni waith pwysig i'w wneud yn yr ysgol. Ein rôl ni yw i wrando ar beth mae plant yr ysgol yn dweud wrthym ni am yr ysgol, ein cymuned a'r byd. Rydym yn gweithio mewn pwyllgorau i wella pethau, i drefnu digwyddiadau ac i rannu barn yr ysgol. Dyma rannu ychydig o'n gwaith.

*Lleisiau llar are committees of children throughout the school. We have important work to do in the school. Our role is to listen to what the children tell us about the school, our community and the world. We work in committees to improve things, to organise events and to share the school's opinion. Here we have shared some examples of our work*



## Pencampwyr ein Planed—Eco Warriors

**Ein rôl ni yw i edrych ar ôl amgychedd yr ysgol a'r gymuned.**

Rydym wedi bod yn rhoi arwyddion diogelwch o gwmpas yr ysgol a monitro'r crac sydd yn nrws y neuadd.

Ar hyn o bryd rydym yn arwain prosiect am drafferthion Llanilar—rydym wedi cael llond bol o'r baw cwn, y sbwriel a'r graffiti o gwmpas y pentref. Mae'r ysgol gyfan yn gweithredu i wella y pentref.

**Our role is to look after the environment of the school and the community.**



We have been putting safety signs around the school and monitoring the crack in the door of the hall.

At the moment we are leading a project about Llanilar's troubles — we are fed up with the dog poo, rubbish and graffiti in the village. The whole school is working to improve the situation.

## Llysgenhadon Gwych—Super Ambassadors

**Ein rôl ni yw i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn gwybod beth yw eu hawliau.**

Rydym yn rhannu hawl y mis ym mhob gwasanaeth. Rydym wedi trefnu Wythnos Iechyd Meddwl yr hanner tymor yma. Gwyliom ffilm 'Inside Out' er mwyn dysgu pawb pwysigrywdd rhannu ein teimladau.

***Our role is to ensure that everyone in the school knows what their rights are.***

*We have organised Mental Health week this half term and watched 'Inside Out' to learn about the importance of sharing our feelings.*

## Llysgenhadon Ffit llar —Bronze Ambassadors

**Ein rôl ni yw annog pawb yn yr ysgol i fod yn iach yn gorfforol a meddyliol.**



Rydym wedi addurno'r tŷ bach yn y neuadd gan ei fod yn edrych bach yn ddiflas! Peintion ni'r waliau a rhoi troli at ei gilydd er mwyn dal adnoddau yn daclus.

***Our role is to encourage everyone in the school to be physically and mentally healthy.***



*We have decorated the toilet in the hall as it looked a little boring!*

*We painted the walls and put together a trolley to keep resources tidy.*

## Cyngor Ysgol / School Council

**Ein rôl ni yn yr ysgol yw i drefnu diwrnodau i godi arain i elusennau gwahanol ac i wrando ar lais y plant.**

Rydym wrthi yn trefnu Diwrnod y Llyfr—bydd cyfle gyda phob plentyn i ddod a llyfr i swopio gyda ffrind.

**Our role in the school is to organise days to raise funds for charities to and to listen to the voice of the children.**

We are currently organising activities for World Book Day—every child can bring a book to swop with a friend.

## Cewri Cymreig—Welsh Giants

**Ein rôl ni yw i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn falch o'u Cymreictod.**

Mae Fflam dal yn mwynhau anturiaethau di-ri bob wythnos. Rydym yn mwynhau rhoi Fflam allan i Gymry yr wythnos yn y gwasanaeth.

***Our role is to ensure that everyone in the school is proud of their Welshness.***

*Fflam still enjoys going on adventures every week and has been on some exciting activities.*

# Dewiniaid Digidol



Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur i'r Dewiniaid wrth ddysgu sgiliau newydd mewn hyfforddiant Llysgenhadon Digidol ar 'Teams' gydag ysgolion ar draws Ceredigion

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r Dewiniaid Digidol wedi cynnal 'CLWB HWB' ar gyfer disgyblion Criw Cyw er mwyn ymarfer mewngofnodi i'w cyfrif HWB ac arbrofi ar y platfform.




Hefyd, fe wnaeth y Dewiniaid Digidol rhannu neges bwysig yn ystod gwasanaeth ar gyfer 'Diwrnod Defnyddio'r We yn Fwy Diogel 2025'.


*The Digital Wizards have been busy this term learning new skills during the Digital Ambassadors training on Teams with schools across Ceredigion. They look forward to sharing these skills with the rest of the school.*


*They have also been busy this half term working alongside Criw Cyw Class in 'CLWB HWB' to practice logging into their HWB account and experimenting on the plat-form. They led an important assembly to teach about the importance of using the internet safely.*









# Diolch!

Diolch yn fawr iawn i Mam Lleucu am ddod i greu pysgod ar gyfer pared Santes Dwynwen gyda dosbarth Criw Cyw. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle mas draw.

*Thank you very much to Lleucu's mum for working with Criw Cyw class to create fish for the Santes Dwynwen parade. They thoroughly enjoyed the opportunity.*



# Le Françoise



Bonjour! Mae plant Dosbarthiadau Gwenllian a Glyndwr wedi bod yn brysur yn dysgu Ffrangeg. Dewch i wrando ar eu sgyrsiau. Maen nhw hefyd wedi bod yn rhannu eu barn am gelf enwog—a hynny yn Ffrangeg! Fantastique!

Gwenllian and Glyndwr classes have been busy practicing their French. Listen to them having a conversation in French! They have also been sharing their opinions on famous art in French.

# Rhannu Negeseuon Pwysig

**Rhannu ein Teimladau—Sharing our Feelings**

Mae'n bwysig ini rannu ein teimladau ac rydym wedi cael nifer o wasanaethau y tymor hwn ar y thema yma. Mae Criw Cyw wedi creu wynebau allan o adnoddau naturiol er mwyn dangos ein emosiynau ac mae arddangosfa yn y neuadd i atgoffa pawb o bwysigrwydd gofalu am ein lles. Mae Llysgenhadon Ffit Ilar yn arwain sesiwn meddwlgarwch ar ddechrau bob gwasanaeth ac yn gofyn i bawb rannu sut maent yn teimlo. Trefnodd y Llysgenhadon Gwych weithareddau arbennig yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl i gefnogi hyn.




It is important that we share our feelings and we have had a number of assemblies this term on this theme. Pupils from Criw Cyw have created faces out of natural resources to show our emotions and there is a display in the hall to remind everyone of the importance of looking after our well-being. Fit Ilar Ambassadors lead a mindfulness session at the start of each service and ask everyone to share how they feel. The Super Ambassadors organised special activities during Mental Health Week to support this.


# Sharing Important messages




## Trafferthion Llanilar - Llanilar Troubles

Rydym wedi cael llond bol o'r llanast sydd yn Llanilar! Rydym yn grac iawn ac yn bwriadu gweithredu. Edrychwch mas am eu gwaith gwych yn cefnogi cymuned Llanilar.

We have had enough of the mess in Llanilar! We are angry and are taking action. Keep a look out for our fantastic work to support the local community.






# Cyswllt gyda'r Gymuned

# Links with the Community



### *Ein Llywodraethwyr—Our School Governors*

*Roedd yn bleser i groesawu'r Llywodraethwyr i'r ysgol i edrych ar weithgareddau darllen amrywiol. Roedden nhw wrth eu boddau yn gweld bod pob plentyn yn mwynhau darllen a'u bod yn defnyddio sgiliau darllen ar draws y cwricwlwm.*






*It was a pleasure to welcome our governors in to talk to the children about reading. They saw a variety of activities based around reading and saw the positive effect this had on children's attitudes towards books.*

## Cadwch y dyddiad / Save the date

Ffair Wanwyn / Spring Fair

10/04/25

3.45—5.00



Stondinau / Stalls

Bwyd / Food

Crefftau gan y plant / Children's crafts

Cysylltwch os hoffech chi stondin / Please contact if you would like a stall

# Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn 2025

# Easter Term 2025 Important Dates

Dyma rai dyddiadau i'ch dyddiaduron. Fe wnewn ein gorau glas i gadw at y dyddiadau yma ond ymddiheuriadau os fydd rhai manylion yn newid. Cofiwch ddilyn yr ysgol ar Facebook **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** am newyddion o'r dosbarthiadau.  Mae gwefan yr ysgol yn cael ei diweddaru yn gyson **https://www.llanilar.ceredigion.sch.uk**.

Os hoffech chi drafodaeth am unrhyw agwedd o fywyd yr ysgol neu am gynnydd eich plentyn, mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

*Here are some initial dates for the term. We shall try to ensure that these dates are kept but there might be some inevitable changes to the dates printed below. Please follow the school on Facebook **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** for news from the classes. Please remember that the school website is updated regularly **https://www.llanilar.ceredigion.sch.uk**.*

*If you would like to discuss any aspect of school life or your child's progress, please feel free to contact us.*

| Digwyddiad | Dyddiad Date | Event |
|---|---|---|
| Eisteddfod ysgol—Gwisgwch grys coch neu wisg Gymreig | 05/03/25 | School Eisteddfod—Wear red or Welsh costume |
| Diwrnod y Llyfr—Dewch a llyfr i swopio gyda ffrind. | 06/03/25 | World Book Day - Bring a book to swop with your friend. |
| Côr yr ysgol yn perfformio yn y Llyfrgell Genedlaethol | 10/03/25 | School Choir performing in the National Library |
| Dosbarth Glyndŵr—Ffair Wyddoniaeth | 11/03/25 | Dosbarth Glyndŵr—Science Fair |
| Eisteddfod Gylch | 18/03/25 | Eisteddfod Gylch |
| **HMS—Dim ysgol i'r dysgwyr** | **21/03/25** | **INSET—No school for the children** |
| **Cyfarfodydd Rhieni i drafod cynnydd eich plentyn** | **25/03/25**<br>**26/03/25** | **Parents Evening to discuss your child's progress** |
| Pontio blwyddyn 6 i Ysgol Henry Richard | 27/03/25 | Year 6 transition day to Ysgol Henry Richard |
| Eisteddfod Sir | 29/03/25 | County Eisteddfod |
| **Ffair Wanwyn y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol/ Cychwyn am 3.45. Cysylltwch os hoffech chi stondin.** | **10/04/25** | **Spring Fair—PTFA. Starts at 3.45. Please contact if you would like a stall.** |
| **Diwrnod olaf y tymor.**<br>**Ysgol yn ail-agor 28/04/25** | **11/04/24** | **Last day of term.**<br>**Next term starts 28/04/25** |

**Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.**

**A big thank you to everyone for your support.**